
Rhif 193 CHWEFROR – MAWRTH 2015

# Gwyliedydd

Synod Cymru

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



**"Ac yna gyrrodd yr Ysbryd ef ymaith i'r anialwch, a bu yn yr anialwch am ddeugain diwrnod yn cael ei demtio gan Satan. Yr oedd yng nghanol yr anifeiliaid gwylltion, a'r angylion oedd yn gweini arno"**
**Marc 1.12-13**

## I'R ANIALWCH

**gan Martin Evans-Jones**

Rydym yn byw mewn anialwch ysbrydol lle mae anifeiliaid gwylltion yn ymosod arnom yn feunyddiol. Ac ni wyddom o ble maent am ymosod nesaf. Wrth i mi ysgrifennu hwn mae Ffrainc yn ceisio dod dros ei hunllef gwaethaf pan saethwyd 17 o bobl, yn cynnwys 4 cartwnydd o'r cylchgrawn dychanol **Charlie Hebdo** ac 8 arall o'u staff, 4 Iddew mewn siop Iddewig, a phlismon Moslemaidd oedd yn ceisio eu hamddiffyn. A phwy oedd yr "anifeiliaid gwylltion"? Tri therfysgwr o fudiad Moslemaidd eithafol a gafodd eu dylanwadu i gasáu popeth sydd a wnelo â gwerthoedd diwylliant y Gorllewin - democratiaeth, rhyddid i fynegi barn ar unrhyw bwnc, cymdeithas amlhiliol a seciwlariaeth.

Ond nid oes raid i ni fynd ymhell o gartref cyn sylweddoli ein bod yn byw mewn anialwch tu mewn i ni ein hunain. Mae o hyd yn llercian yn rhywle fel rhan o'n profiad, yn ceisio ein boddi'n llwyr â theimladau o iselder, diffyg hyder ac ansicrwydd marwol. Galwch o'n Satan os liciwch chi, mae'n ein gwahanu oddi wrth gymundeb ag eraill a theimlwn yn hollol ddiymadferth a di-Dduw. Yn yr hunllef hwn collwn yr awydd i wneud ein gwaith; ni chawn flas ar ein diddordebau; nid oes dim byd sylweddol i sefyll arno mwyach. Rydym wedi'n carcharu mewn hunllef tywyll iawn a daw'r anifeiliaid gwylltion i ymosod arnom, sef braw, panic a'r temtasiwn i gau ein hunain i ffwrdd, oherwydd ni allwn gyflawni dim byd, hyd yn oed y gorchwyl syml o godi yn y bore. Mae'n digwydd weithiau ar adeg pan ydym newydd fod ar gwmwl 9, wedi ennill rhyw gyfrifoldeb newydd ac yn sydyn teflir ni i bydew o ansicrwydd llwyr.

Yr unig gysur yw fod Iesu Grist wedi bod yno o'n blaenau. Dyma ydyw pwrpas cyfnod y Grawys pan gydgerddwn â'r Iesu yn yr anialwch am ddeugain diwrnod. Yn efengyl Marc, yr efengyl gyntaf i gael ei chyfansoddi, mae'r hanes yn gynnil, gynnil. Ychydig ynghynt codwyd Iesu i'r entrychion; bedyddiwyd ef gan Ioan Fedyddiwr a phan ddaeth allan o'r dŵr clywodd lais yn dweud wrtho, "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu". Ond unwaith y dechreuodd feddwl dros y cyfrifoldeb aruthrol a roddwyd ar ei ysgwyddau, taflwyd ef i ansicrwydd maith a bu mewn anialwch yn ymgodymu â'i ofnau, a Satan, ac â'r anifeilaid gwylltion. Ond ef a goncwerodd yn y diwedd. Trwy ei nerth ef yn unig y cawn ninnau'r gallu i goncro ein cyfnodau yn yr anialwch. Diolch i Dduw fod gennym Waredwr!

**"Gyfeillion annwyl, peidiwch â rhyfeddu at y prawf tanllyd sydd ar waith yn eich plith, fel petai rhywbeth rhyfedd yn digwydd ichwi. Yn hytrach, yn ôl maint eich cyfran yn nioddefiadau Crist llawenhewch, er mwyn ichwi allu llawenhau hefyd, a gorfoleddu, pan ddatguddir ei ogoniant ef" 1 Pedr 4.12-13.**

**Dydd Sadwrn 25 Ebrill 2015 – 2pm**

**Capel Bathafarn, Rhuthun**

(yn dilyn cyfarfod y Synod yn y bore)



## CYFARFOD AGORED

**gyda'r Dr Daleep Mukarji**

Cyn-gyfarwyddwr Cymorth Cristnogol ac Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd 2013-14

Pwnc: "Synod Cymru – Cenhadaeth a Dyfodol"

Anerchiad gan Dr Mukarji, yn tynnu ar ei brofiad eang o ddiwylliannau amrywiol a'n Cyfundeb i gyd, ynghyd â chyfle am sgwrs. **CROESO I BAWB**



## Cofiwch 16 Mai!

CYMDEITHAS HANES
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

## PERERINDOD 2015

COFIO JOHN EVANS EGLWYSBACH, 1840 – 1897

Dyma gyfle i ymweld ag Eglwysbach, Dyffryn Conwy, lle y ganwyd ac y magwyd un o bregethwyr mwyaf Cymru erioed, y Parchedig John Evans. Gobeithiwn ymweld â Tŷ Du, ei gartref cyntaf ac yna Goleugell lle bu'n byw wedi hynny. Bydd cyfarfod arbennig i'w gofio yng Nghapel Ebeneser Eglwysbach. Siaradwr gwadd: Dr R.TELFRYN PRITCHARD, Evesham (un o hogia hen Gylchdaith Llanrwst).

PNAWN SADWRN, MAI 16eg, 2015

YMGYNNULL WRTH GAPEL EBENESER, EGLWYSBACH am 12-00 o'r gloch.

Dewch â bwyd gyda chi a bydd paned wedi'i pharatoi ar eich cyfer. Os ydych yn trefnu bws, cofiwch mai bws mini yn unig fydd yn addas. Ar ddiwedd y daith bydd bwyd wedi ei drefnu am bris rhesymol. Er mwyn trefnu ymhellach, bydd yn rhaid i mi gael gwybod faint yn hollol o bererinion fydd ar y daith, felly anfonwch eich enwau os gwelwch yn dda, cyn diwedd Mawrth, i mi:

Robin Jones, Llys Alaw, 18 Stâd Eryri, BETHEL, Caernarfon,
Rhif Ffôn 01248 -670140,
neu drwy e-bost-robinbethel@tiscali.co.uk.





*Capel Coffa John Evans, Eglwysbach ym Mhontypridd*

# 'NEFOEDD A DAEAR'

**Ionawr 19eg – Mawrth 26ain 2015**

**Ymweliad Casgliad yr Eglwys Fethodistaidd o Gelfyddyd Gyfoes â Wrecsam**



***Crist yn ysgrifennu yn y Llwch – y Wraig wedi ei dal mewn Godineb**. Clive Hicks-Jenkins*
*Casgliad yr Eglwys Fethodistaidd o Gelfyddyd Gyfoes*

Am ddeg wythnos rhwng Ionawr 19eg a Mawrth 26ain bydd deugain darn o waith o'r casgliad yn cael eu harddangos mewn dau leoliad, Eglwys Fethodistaidd Stryt y Rhaglyw, Wrecsam ac Oriel Sycharth, Prifysgol Glyndŵr. **Arddangosfa:** 9.30yb – 4yp dydd Llun i ddydd Sadwrn, mynediad am ddim. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

Dydd Sadwrn 28ain Chwefror **Llan Llanast gyda Lluniau**, 3.00yp tan 5.30yh yn Eglwys Stryt y Rhaglyw. Cyfle i oedolion a phlant addoli, creu a chydfwyta, dan arweiniad Luke Curran a Delyth Wyn Davies. Sesiwn dwyieithog fydd hwn.

Nos Fercher Mawrth 4ydd **Myfyrdod ar gyfer y Grawys,** 7.00yh yn Eglwys Stryt y Rhaglyw, dan arweiniad Parch. Jennie Hurd, Cadeirydd Synod Cymru. Mae hwn yn rhan o gyfres o sesiynau defosiynol yn dwyn yr enw *Camau'r Daith*.

Dydd Sadwrn Mawrth 21ain **Geiriau Celfyddyd: Celfyddyd Geiriau,** 2.00yp yn Oriel Sycharth. Gweithdy yng nghwmni'r Prifardd a Phriflenor Mererid Hopwood i symbylu ysgrifennu am gelf neu ddefnyddio celf fel man cychwyn i ysgrifennu.

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 193**
**CHWEFROR-MAWRTH 2015**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***



**ROBIN JONES**
LLYS ALAW
18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA
GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU: 3 MAWRTH, 2015**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "**Yr Eglwys Fethodistaidd – Synod Cymru"**

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


### Y Cadeirydd yn ymweld â'r gwahanol Ardaloedd

| Chwefror | | Mawrth | |
|---|---|---|---|
| 1 | Dyffryn Conwy | 1 | Dyffryn Clwyd |
| 8 | Powys | 8 | De Gwynedd |
| 15 | Gwyliau | 15 | Y Trallwng |
| 22 | Ceredigion | 22 | Morgannwg |
| | | 29 | Glannau Maelor a Bathafarn |

Llun y clawr gan Regina Smith.
Diolch yn fawr, Regina.

Diolchwn yn gynnes i Mrs Margaret Griffith, (gweddw'r Parchedig Ronald Griffith) am rodd garedig o £25-00 i'r *Gwyliedydd*, ac am rodd ddi-enw o £25-00. Diolch o galon hefyd i Mrs Alwena Edwards, Llanfairtalhaiarn am rodd o £10.

# O'R GADAIR AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

"Ble mae eich capeli chi?" Dyma gwestiwn a ofynnwyd i mi yn eithaf aml ers i mi gychwyn fel Cadeirydd Synod Cymru ac Arolygydd Cylchdaith Cymru. Fy ymateb arferol yw, "Wel, does gen i'r un ar hyn o bryd – mae gen i fath o arolygiaeth dros waith Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd." Dydy'r ateb ddim yn foddhaol, rywsut, ond deuthum ar draws llyfr yn ddiweddar o'r enw *What Clergy Do: Especially When It Looks Like Nothing* gan Emma Percy (SPCK 2014). Mae wedi fy sbarduno i feddwl am beth *rydw* i'n ei wneud, yn fy rôl anarferol. Efallai eich bod chithau wedi meddwl - "Beth, tybed, mae'r Cadeirydd yn ei wneud o ddydd i ddydd?"! Mae'n anodd rhoi'r darlun cyfan, ond dyma ryw fraslun.

Yn gyntaf, gweinidog gair, sacrament a gofal bugeiliol ydw i, am byth. Rwyf yn gwerthfawrogi pregethu mewn gwahanol fannau yn y Synod o Sul i Sul, nid yn unig er mwyn i ni addoli efo'n gilydd ond oherwydd y cyfle i ddod i adnabod aelodau'r capeli a'r Ardaloedd yn well. Rwy'n ddiolchgar am bob croeso. Rwy'n derbyn, tra byddaf yn Gadeirydd, na chaf gyfle i fedyddio fel y caiff gweinidog sydd â gofal bugeiliol dros gapeli, ond rwyf wrth fy modd yn dathlu sacrament y Cymun Sanctaidd efo cynulleidfaoedd ar y Sul. O ran gofal bugeiliol, mae gan bob Cadeirydd drwy'r Gyfundeb gyfrifoldeb arbennig dros weinidogion, uwchrifiaid a gweddwon gweinidogion. Rwy'n sylweddoli pwysigrwydd hyn, ac yn ceisio ei gyflawni, ond yn cydnabod fy methiant. Rwyf mor ddiolchgar am amynedd fy mrodyr a'm chwiorydd.

Yn amlwg, mae Cadeirydd yn cadeirio – nid yn unig cyfarfodydd y Synod ond cyfarfodydd eraill fel y Pwyllgor Polisi, Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor yr Ymgeiswyr, y Pwyllgor Enwi, ac yn y blaen. Gwisgo fy het Arolygydd a wnaf i gadeirio cyfarfodydd fel Cyfarfod y Gylchdaith a Chyfarfod y Pregethwyr. Ceisiaf gefnogi Cyfarfodydd yr Ardaloedd trwy fy mhresenoldeb, a cheisiaf helpu'r Arweinyddion i ddod ynghyd a myfyrio ar y rôl allweddol sydd ganddynt. Caf gyfle i gydweithio hefyd â Gweinyddydd Synod Cymru, y Swyddog Diogelu, y Swyddog Dysgu a Datblygu a swyddogion eraill. Mae'n braf mynd i gyfarfod ambell dro a pheidio â'i gadeirio! Daw cyfle o'r fath pan fyddaf yn cynrychioli'r Synod mewn cyfarfodydd cyfundebol fel Cyfarfod y Cadeiryddion, y Fforwm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Sefydlu a'r Gynhadledd–a'r Cyngor yng Nghymru, wrth gwrs. Yn ogystal â bod yn gynrychiolydd y Synod i'r Cyfundeb, dof at y Synod fel cynrychiolydd y Cyfundeb: fel Methodistiaid, rydym yn perthyn i'n gilydd trwy Brydain i gyd, ac mae gen i gyfrifoldeb i sicrhau ein bod ni'n chwarae ein rhan, a rhoi a derbyn, fel pob talaith arall.

Rydym yn ffodus iawn yn Synod Cymru fod gennym Swyddog Ecwmenaidd gweithgar iawn, ond mae gan y Cadeirydd ran i'w chwarae yn y maes ecwmenaidd hefyd, fel pob arweinydd enwadol. Mae hyn yn rhywbeth sy'n agos at fy nghalon. Weithiau bydd gofyn imi siarad ar ran y Synod ar y radio. At hynny mae'r Cadeiryddion i gyd yn derbyn amrywiol gyfrifoldebau cyfundebol. Felly, yn y flwyddyn a hanner diwethaf, cefais brofiadau amrywiol iawn!

Rhan o fwriad y Gynhadledd, pan benderfynwyd penodi Cadeiryddion Ar Wahân heb gyfrifoldeb bugeiliol am gapeli, yn ôl yn 1950au, oedd y byddai'r gweinidogion hynny ar gael i hyrwyddo cenhadaeth yn eu taleithiau. Roedd hyn yn rhan sylfaenol o'r disgrifiad swydd pan ymgeisiais am y swydd hon yn 2012, a dyma fy mwriad wrth gynnig syniad "Datblygu Ein Galwad" i'r Synod. Mae'n wych gweld cymaint o ddiddordeb wrth inni gymryd un o bedair thema "Ein Galwad" i ganolbwyntio arni bob blwyddyn yn ein capeli a'n Hardaloedd, ac edrychaf ymlaen at weld ffrwyth y syniad, o dan Dduw. Ond mae hynny yn sôn wrthyf fi am bwysigrwydd ein cydweithrediad fel aelodau eglwys Iesu Grist. Dywedodd Paul, "Oherwydd fel y mae'r corff yn un, a chanddo lawer o aelodau, a'r rheini oll, er eu bod yn llawer, yn un corff, fel hyn y mae Crist hefyd" (I Corinthiaid 12:12).

Mae gennym ni i gyd rôl i'w chwarae fel aelodau corff Crist, pwy bynnag ydym, yn lleygwyr a gweinidogion. Mae arnom ni angen ein gilydd; mae arnom ni angen *pawb*. Ar hyn o bryd fy rôl i yw Cadeirydd y Synod, ond ni all neb ohonom gyflawni ein rôl heb gydweithrediad pobl eraill. Mae'n dda cydweithio er mwyn teyrnas Dduw! Boed i Dduw fendithio ein gwaith efo'n gilydd, er mwyn i ni fod yn fendith i eraill.

# mab y mans

## GERAINT ROBERTS



Mab y diweddar Barchedig Clifford Roberts a Mrs Lilian Roberts yw'r cerddor adnabyddus Geraint Roberts. Cyn iddo ymddeol roedd Geraint yn Uwch Athro a Phennaeth Cerdd yn Ysgol Emrys ap Iwan, Abergele, ac mae'n organydd ac arweinydd talentog iawn. Bu'n arweinydd a chyfarwyddwr Côr Meibion Trelawnyd am dros 30 mlynedd. Dyma Geraint yn sôn am y dyddiau cynnar:

Yn Llanerfyl y cychwynnodd fy nhaith fel mab i Weinidog Wesla. Ond dim ond ychydig wythnosau oed oeddwn yn gadael fy nghartref cyntaf yn Nolerfyl. Yr atgof cyntaf sydd gennyf yw eistedd y tu allan i Glantuen, mans Cylchdaith Ystumtuen ym mynyddoedd y Pumlumon. Ychydig cyn i ni symud i'r pentref bach, caewyd yr ysgol ac addaswyd yr adeilad i fod yn Hostel Ieuenctid. O ganlyniad, roedd llawer o bobl ifanc yn dod i aros yn y pentref. A'u cwestiwn i mi, drosodd a throsodd wrth iddynt basio'r tŷ, oedd, "And who are you?". Dysgwyd fi i ateb, "I am the Minister's little boy", sef yn wir Mab y Mans!

Cyfnod hapus i'm rhieni oedd y tair blynedd yn Ystumtuen. Amser i fwynhau cymdeithas glòs a diwylliedig, cyfarfodydd cymdeithasol, dramâu ac Eisteddfodau. Ond roedd bywyd yn ddigon caled - gaeafau garw, prinder petrol a Dad yn cerdded o un capel i'r llall i wasanaethu. Mae cysylltiadau a chyfeillgarwch yn parhau hyd heddiw.

Daeth y cyfnod hwn i ben yn rhy fuan a rhaid oedd symud i ardal hollol wahanol. Yn 1960 aethom i fyw ym Mrymbo - ardal ddiwydiannol eitha' Seisnigaidd ei natur. Symud o lendid Bryniau Pumlumon i fwg oren y diwydiant dur. Dyma oedd cychwyn Cerddoriaeth yn fy mywyd - canu emyn yn lle dweud adnod ar fore Sul a helpu Mam i newid y stops ar yr organ wrth iddi wasanaethu mewn oedfa. Roedd y capel yn enfawr i hogyn bach, ac roedd yn sefyll yng nghysgod y Gwaith Dur. Dyna oedd cyfnod dechrau'r ysgol a chael amser hapus yn Ysgol Gymraeg Wrecsam gan brofi gofal a charedigrwydd yr athrawon - Miss Mary Jane Davies a Mrs Olwen Berwyn Davies (mam Dr Philip Davies), heb anghofio'r flwyddyn yr oedd mam yn athrawes arna i. Atgofion hapus am yr Eira Mawr yn 1963, mynd am dro ar ôl capel ar bnawn Sul i ddilyn y trên stêm ac astudio Maes Llafur anghyffredin fy athrawes Ysgol Sul sef "Shadow the Sheepdog", a'r tripiau Ysgol Sul i'r Rhyl a Southport. Uchafbwynt y flwyddyn ym Methel Brymbo oedd y 'Good Friday Concerts' a pherfformiadau gan unawdwyr o Covent Garden gyda chyfeiliant y ddiweddar Maelor Richards ar y piano. Roedd y capel yn orlawn bob tro i'r cyngherddau hyn.



Ymhen pum mlynedd, roedd yn amser symud eto, y tro hwn i bentref Rhyd-y-foel. Roedd yno gymdeithas glòs, debyg i Ystumtuen, a'r capel yn ganolbwynt i'r pentref – cynulleidfaoedd niferus a chanu eneiniedig. Rwy'n sicr i'r canu pedwar llais ddylanwadu arnaf yn gerddorol. Roedd Cartrefle, y Tŷ Gweinidog, drws nesaf i'r capel a chofiaf eistedd ar stepiau'r drws cefn a gwrando ar yr organ am hanner awr cyn mynd i'r Gwasanaeth Hwyrol. Bu hyn yn gryn ddylanwad arnaf a dyma oedd y cyfnod i mi ddechrau chwarae'r organ yn yr Ysgol Sul. Cofiaf y fferins ar y plât casglu a'r chwilio am organ newydd i'r capel. Tybed faint o gynulleidfa Salem Rhyd-y-foel sy'n cofio benthyg Wurlitzer o Rushworth's Llandudno a seiniau Radio 1 yn dod o'r Organ ynghanol pregeth Dad! Wrth gwrs, aeth pawb i chwerthin ac aeth yr Organ yn ôl ar y bore Llun! Roeddwn wastad yn falch o ganu "Arglwydd mae yn nosi" er mwyn cael mynd adref! Roedd y Sul yn ddiwrnod prysur ac ymwelwyr yn dod i'r tŷ i gael cinio neu de. Dyma oedd cyfnod Ysgol Glan Morfa, Abergele, cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfodau lleol a chenedlaethol a dyma'r tro cyntaf i ni gael telyn yn y tŷ wrth imi ddechrau cael gwersi yn Ysgol Glan Clwyd.

Daeth pum mlynedd arall i ben a dyna hi'n amser symud eto a minnau erbyn hyn yn fwy ymwybodol o'r holl waith oedd yn gysylltiedig â mudo. Roeddwn yn ffodus nad oedd raid imi symud ysgol y tro hwn wrth imi symud i Brestatyn. Roedd symud o Ryd-y-foel yn hynod anodd imi gan ein bod mor hapus yno fel teulu. Ond rhaid oedd ufuddhau i'r drefn a symud i fans a chapel newydd. Dyma pryd y cefais y profiad cyntaf o chwarae Organ Bib a mwynheais hyn gymaint nes fy mod wedi parhau i chwarae hyd heddiw. Ar ôl cyfnod o bum mlynedd arall, roedd yn amser imi symud, ar fy mhen fy hun y tro hwn, i astudio yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain. Hwn oedd diwedd swyddogol bod yn 'Fab y Mans' er i mi ymuno â chynulleidfa Capel Chiltern Street lle bûm yn gwasanaethu wrth yr organ. Yn ystod y cyfnod yma, bu farw fy nhad yn gynamserol ac yntau yn ddim ond 49 mlwydd oed. Yn 1980, fe ddychwelais i Brestatyn. Mae dylanwad fy magwraeth fel Mab y Mans yn gryf. Mae ffyddlondeb a theyrngarwch i fywyd yr Eglwys yn dal i fod yn bwysig i'r teulu, i'm plant a'u plant hwythau.

**Merched Methodistaidd ym Mhrydain**

Cynhelir cyfarfod yn
**Salem, Porthmadog**

Dydd Sadwrn, 11 Ebrill, 2015
2.30 pm

*Siaradwr:* **Llinos Roberts**
(gweithiwr gyda Chymorth Cristnogol)

O Dduw trugarog,
y bu i'th Fab Iesu Grist, plentyn Mair,
rannu bywyd mewn cartref yn Nasareth:
atgyfnertha ni bob dydd,
fel, yn ein llawenydd a'n galar,
y gallom adnabod dy bresenoldeb;
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.
*(Llyfr Addoliad y Methodistiaid)*

# COFFOR

gan Elwyn Parry

Roedd fy ewythr Wil yn saer coed a chofiaf ei weld yn gwneud coffor. Coffor? Cist fach bren i gadw Beibl Pitar Williams. Roedd tad Wil, Edward Parry, yn flaenor yn ei gapel a bob nos yn ddiffael byddai'n cadw dyletswydd ar ôl swper. Defnyddiai hen Feibl Pitar Williams yr oedd ei daid a'i hen daid wedi hel ceiniogau prin i'w brynu. Cofiaf wrando ar Edward yn darllen yn uchel o'r Beibl hwn. Cofiaf ei lais yn darllen, "Fy enaid bendithia'r Arglwydd ac nac anghofia Ei holl ddoniau Ef".

Pan euthum am dro yr haf diwethaf i'r Gelli Gandryll ar gyfer y Ffair Lyfrau, cefais fwynhad yn cerdded o gwmpas y pentref a chael golwg ar yr holl siopau hen bethau a'r siopau llyfrau ail law. Mewn un siop roedd llond cornel o lyfrau Cymraeg, yn hen esboniadau, gwerslyfrau, llyfrau emynau o bob enwad hen a newydd, a silff gyfan o Feiblau. Yn eu canol gwelwn Feibl Pitar Williams, ar werth am y nesaf peth i ddim. Yna wrth fynd drwodd i ystafell arall, roedd y gorffennol yn eich wynebu. Roedd fel hen gegin, yn llawn celfi efydd a chopr, canwyllbrennau, dresel a chloc Taid. Yr hyn a dynnodd fy sylw oedd y coffor ar ganol y bwrdd ac ynddo roedd hen Feibl Pitar Williams. Roedd y Beibl wedi'i addurno'n gywrain tu hwnt mewn efydd, a bwcl pres yn cau amdano. Roedd y coffor yn sgleinio i ddangos mor brydferth oedd y Groes ar y caead. Hardd odiaeth.

Dywedodd y siopwr wrthyf ei fod yn hen iawn, yn "genuine article". Pan holais faint oedd o, atebodd: "It's a bargain for £850 but call it £800!" Dydd da, meddwn innau, ac allan o'r siop. Meddyliais am Yncl Wil yn gwneud y coffor bach yn ei weithdy, ac am gyflwr crefydd heddiw. Llawer yn ein gwlad heb sylweddoli gwerth y Beibl. Ar y llaw arall, rhyw drimins wedi mynd yn ddychrynllyd o ddrud.

# CYMDEITHAS Y CYMOD

gan Nia Rhosier

Fis Mai diwethaf, cefais y fraint o gynrychioli cangen Cymru o IFOR (Cymdeithas y Cymod Rhyngwladol) mewn cynhadledd i gofio canmlwyddiant Cymdeithas y Cymod, ar ynys hudolus Iona. Bûm yn aros am bum niwrnod yn yr Abaty enwog a chael cyfarfod â heddychwyr o'r Alban, Lloegr, yr Iseldiroedd a Norwy, pob un ohonynt yn lleisio eu bwriad i barhau i weithio dros heddwch a chymod yn eu cymunedau a'u gwledydd. Clywsom am lawer o bethau yr oedd pobl wedi'u gwneud eisoes. Soniwyd am ddewrder athrawon Norwy yn yr ail ryfel byd. Trwy fabwysiadu dulliau moesol a didrais, gwrthododd yr athrawon hyn ledaenu propaganda'r Natsïaid yn ysgolion Norwy, gan wybod y gallasent wynebu cosb greulon.

Roedd nifer fawr o bobl ifainc o Hope College, Michigan, yn bresennol hefyd, wedi eu denu gan y syniad o Bererindod Heddwch i Ynys Iona ond yn gwybod dim am fodolaeth IFOR, er mai yn yr Unol Daleithiau y mae'r gangen fwyaf o ddigon! Cawsom ar ddeall eu bod yn gwneud ymchwil ar heddwch a buont wrthi'n cyfweld ag amryw ohonom. Cefais gyfle i sôn wrthynt am Gymdeithas y Cymod yng Nghymru.

Gan mai yn niwedd 1914 y sefydlwyd y 'British FOR', fel y'i gelwid bryd hynny, yng Nghaergrawnt, cynhaliwyd cynhadledd canmlwyddiant yno ar 22 Tachwedd 2014 ar wahoddiad Meistr Coleg Magdalene, Rowan Williams. Unwaith eto cefais gyfle i gynrychioli Cymdeithas y Cymod yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad i barhau i arddel seiliau Cristnogol yr FOR yn gryf iawn, a'r dyhead am gydweithio â'r eglwysi i adeiladu heddwch a chymod fel ffordd o fyw yn cael ei fynegi'n glir. Ond nid proses unochrog ydyw; rhaid wrth benderfyniad o du'r eglwysi o bob enwad i gydweithio â Chymdeithas y Cymod hefyd.

Mae gennym ni yng Nghymru gyfle i arwain trwy arddel y ffordd ddi-drais oherwydd mae gennym hanes hir o geisio gwneud hynny. Hoffwn gymell darllenwyr y *Gwyliedydd* i ddarllen am fywyd a gwaith George M. Ll. Davies a chyfrol nodedig Dewi Eurig Davies, "Protest a Thystiolaeth". I ddyfynnu Gwynfor Evans, "Ym marn heddychwyr, y ffordd Gristnogol o amddiffyn gwlad yw trwy nerth mewnol y person unigol; ystyriwn y ffordd hon yn foesol, tra bod lladd cyd-ddyn bob amser yn anfoesol."

# ANEURIN

Bu llawer o sôn yn y misoedd diwethaf am y gyflafan a ddechreuodd ym 1914. Ychydig flynyddoedd yn ôl, aeth Melfyn Evans, Croesoswallt, i wlad Belg a mynd i weld rhai o'r mynwentydd milwrol enfawr yno. Gwelodd fedd Hedd Wyn ym mynwent Artillery Wood, a mynwentydd Menin Gate a Tyne Cot. Profiad ysgytwol. Ymysg y 14,000 o feddi yn Tyne Cot, roedd un ag ysgrifen Gymraeg arno:

**Aneurin Maldwyn**
**Evans**
**26 MEDI 1917**
**Bu Fyw I Farw**
**Bu Farw I Fyw.**

Tybed pwy ydoedd? Ai un o Sir Drefaldwyn? Ymhen hir a rhawg deallodd Melfyn, drwy Archifdy Kew yn Llundain, mai bachgen o Fanceinion oedd Aneurin. Sylweddolodd mai mab John Evans, Manley Park, Manceinion (Cynogfab) ydoedd.




Gwyddai Melfyn fod Cynogfab wedi cyfansoddi 26 o emyn-donau, ac yn eu mysg wrth gwrs yr emyndon 'Aneurin' er cof am ei fab.

Roedd John Evans a'i wraig Elizabeth wedi symud o Langynog i Fanceinion yn y flwyddyn 1880.

# CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Tabernacl, Llanfyllin

**PLYGAIN**
Cynhaliwyd y Blygain flynyddol arferol ar y Sul cyntaf yn Rhagfyr yng nghapel y Tabernacl dan nawdd y Gymdeithas Gymraeg yn Llanfyllin. Croesawyd pawb ac arweiniwyd y defosiwn agoriadol gan y Parchedig Gwyndaf Richards. Pedwar parti oedd eleni sef Llinos Llanfyllin, Triawd Pontrobert, Triawd Yr Wyddgrug, a Phedwarawd Fronheulog. Cafwyd canu cynulleidfaol ardderchog gydag Eldrydd Jones wrth yr organ. Roedd swper wedi'i baratoi hefyd ar gyfer y carolwyr.

**DYMUNIADAU GORAU**
Mae Tom Ellis, Tawelfa, gartref ar ôl llawdriniaeth ar ei ben-glin. Mae yn graddol wella a dymunwn y gorau iddo yn y flwyddyn newydd gan ei atgoffa i beidio â brysio'n ormodol i fynd o gwmpas! Hefyd anfonwn ein cofion at Huw Ellis, mab Tom a Mair, ar ôl ei lawdriniaeth ar ei droed, ac fel pe na bai gan Tawelfa ddigon i'w pryderu, daeth y newyddion am ddamwain ddrwg i Meirion Ellis, Dolgellau, mab hynaf Tom a Mair. Deallwn ei fod gartref erbyn hyn ac mai gorffwys ydi'r feddyginiaeth ar ôl torri nifer o esgyrn. Ar nodyn hapusach dymunwn longyfarch Tom a Mair ar ddod yn Hen Daid a Nain yn dilyn genedigaeth Mared, merch fach i Andrew a Stephanie ym Mhwllheli. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd i'r Flwyddyn Newydd.

**PASIANT Y NADOLIG**
Ar Ragfyr 21ain cynhaliwyd y Pasiant Nadolig Blynyddol yng Nghapel y Tabernacl a braf oedd gweld y capel yn llawn. Roedd y cynhyrchu dan ofal Eleri Llwyd a Rhian Evans ynghyd â rhieni plant yr Ysgol Sul Undebol a'r cyfeilyddion Eldrydd Jones a Gwenan Jones. Yn anffodus nid oedd Eleri yn bresennol oherwydd salwch ei mam, Ella Lloyd. Perfformiwyd y ddrama'n dda iawn gan blant yr Ysgol Sul a chymerwyd rhan hefyd gan nifer helaeth o gyn-ddisgyblion. Cawsom ddarlleniadau, gweddïau, carolau cynulleidfaol, sgets ac eitemau cerddorol gwirioneddol wych. Roedd y casgliad yn £150 ac fe'i cyflwynwyd i gronfa Achub y Plant. Rhoddwyd y fendith gan Tom Ellis. Addurnwyd y capel yn arbennig ar gyfer y Nadolig gan Llywela Roberts, a diolchwyd i bawb gan Robin Hughes.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn gywir iawn â theulu'r ddiweddar Mrs Angharad Thomas, Tynpant gynt, ond yn ddiweddar ym Mhenllwyn, ac yn arbennig ag Alwena a Meinir a'u teuluoedd. Bu farw ar Ragfyr 30ain yn 101 oed.

*Gohebydd – Robin Hughes*

**Un lliwgar oedd ciwrat Llanheulog,**
**Fe wisgai drowsusau blodeuog,**
**Gwisgai got o flew cath**
**na welwyd ei bath**
**A het am ei ben o groen sgwarnog.**
***-RJ***

## Pontrobert

**CYDYMDEIMLO**
Rydym yn cydymdeimlo ag Eirlys Edwards sydd wedi colli ewythr, a hefyd Ogwyn Davies a Huw Gwalchmai a gollodd berthynas.

**DIOLCH**
Hoffem fel aelodau ddweud diolch yn fawr iawn i Gwen Jones, Penwtra, sydd wedi bod yn chwarae'r organ ar y Sul ers dros hanner can mlynedd. Mae'n dioddef o arthritis rhiwmatoid ac ni all wneud defnydd llawn o'i dwylo mwyach, ond chwith iawn yw peidio â'i gweld yn ei sedd arferol wrth yr organ. Diolch yn fawr iawn Gwen am eich ymroddiad dros y blynyddoedd. Rydym yn ddiolchgar i Bronwen Gwalchmai am ymgymryd i helpu ar y Sul, hefyd Menna Lloyd, Gwenan a Sharon.

**GWASANAETH NADOLIG**
Cawsom wasanaeth undebol wedi ei drefnu gan Margaret Herbert (aelod hefo'r Annibynwyr). Cafwyd emynau, gweddïau, darlleniadau o'r Ysgrythur, barddoniaeth a phedwarawd. Gwasanaeth a roddodd ddiweddglo bendigedig i'r flwyddyn.

**DYMUNIADAU DA**
Pob dymuniad da i Hannah Parry sydd yn y Coleg yng Nghaerdydd, a hefyd Sioned Watkin a fydd yn cychwyn ar ei chwrs nyrsio yn Birmingham.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Pendref, Dinbych

**EIN HADDOLDY**
Parhawn i addoli yn y Festri Fawr ar ei newydd wedd. Mae'r ystafell yn profi i fod yn un gynnes, moethus a chyffyrddus. Unwaith eto dymunwn ddiolch i bawb a fu'n gwneud y gwaith o'i thrawsnewid.

**CODI ARIAN**
Cynhaliwyd bore goffi / ffair hydref lwyddiannus yng Nghanolfan Gymunedol Eirianfa. Ynghyd a mwynhau paned a chymdeithasu, roedd modd i bawb brynu o stondinau cacennau, tombola, planhigion, taffi triog (Gwyn Hafod Elwy), llyfrau, cardiau post ac amryw o fanion eraill. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**ADDOLI YM MHENDREF A PHENIEL**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Tachwedd a Rhagfyr dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands a'r Parchedigion Glyn Thomas a Cledwyn Parry a Mr Royce Warner. Dydd Sul Rhagfyr 7fed aethom i gydaddoli yng Nghapel Peniel Llanelwy dan arweiniad Cadeirydd Synod Cymru, y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Bore Sul Rhagfyr 14eg yn dilyn Gwasanaeth y Cymun dan arweiniad y Parchedig Cledwyn Parry, mwynhawyd paned a mins peis.

*Gohebwyr – Mary Jones a Rhiannon Rogers*

## Eglwys Unedig Colwyn

**CYNGERDD CAROLAU ELUSENNOL**
Ddechrau Rhagfyr cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig Elusennol unwaith eto yn Horeb er budd y ddwy Hosbis leol, sef Dewi Sant a Thŷ Gobaith. Trefnwyd y cyngerdd gan y Cynghorydd Phil Edwards a swyddogion Horeb ac fe'i cefnogwyd gan Glwb Rotari Llandrillo yn Rhos, Côr Meibion Colwyn, plant Ysgol Gynradd Llandrillo yn Rhos a'r unawdwyr ifanc lleol Sara a Ryan Davies. Dyma'r seithfed tro i'r Cyngerdd gael ei gynnal. Codwyd bron i £11,500, ar gyfer yr achosion teilwng yma. Canwyd carolau dan arweiniad Mr Trystan Lewis a'r organydd oedd Mr Gwyn Jones. Diolch i'r ddau am eu gwaith. Cafwyd te a mins peis, sgwrs a dathlu ar y diwedd. Mae swyddogion Horeb yn gwerthfawrogi ymrwymiad a chefnogaeth hael pawb ac edrychwn ymlaen at y cyngerdd nesaf.

**DATHLU'R NADOLIG**
Cynhaliwyd gwasanaeth fore dydd Nadolig yn Ebeneser, Hen Golwyn, gyda Mr Arfon Williams yn arwain ac amryw o aelodau Horeb a Disgwylfa yn cymryd rhan, sef Catherine, Marian, Gwenllian, Arfon, Ken, John a Rhiannon. Diolch i Miss Marian Prys Davies am baratoi gwasanaeth bendithiol iawn ac i Mr Dilwyn Price yr organydd.

**COFION**
Anfonwn ein cofion caredig at Mrs Dora Jones sydd wedi methu dod i'r oedfaon yn ddiweddar yn dilyn dau godwm yn ei chartref. Dymunwn wellhad buan iddi hi a phawb sydd ddim yn dda eu hiechyd.

*Gohebwyr – Rhiannon Jones a Ken Owen*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i Glyn a Gladwen, Gwyddelwern, ar ddod yn hen daid a nain unwaith eto. Pob bendith arnoch fel teulu.

**CYDYMDEIMLO**
Mawr yw ein cydymdeimlad ag Olwen, priod y diweddar Barchedig E.H. Griffiths, a'r teulu oll – meddwl amdanoch i gyd yn eich hiraeth. Buom yn ffodus iawn o gael cwmni hawddgar E.H. yma ym Mathafarn. Roedd yn gymeriad annwyl, cymwynasgar ac yn fugail arbennig iawn, yn ogystal â bod yn emynydd ac yn ysgolhaig. Er i'w olwg a'i glyw ddirywio yn arw iawn, roedd yn parhau yn siriol, gyda'r wên ddiffuant oedd mor nodweddiadol ohono.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r Tyddyn ym marwolaeth Iorwerth Beech, Bryneglwys.

**CYMRYD RHAN YN Y GWASANAETHAU**
Cymerwyd rhan mewn **cyfarfod gweddi** arbennig gan Rhodri, Dilys, Elizabeth ac Olwen. Mewn cyfarfod arall cawsom gyflwyniad yn seiliedig ar ddameg **y pum morwyn gall a'r pum morwyn ffôl**, gan Martin, Elizabeth, Rhodri a Rhian. Ein horganydd oedd Rhian Roberts. Diolch i'r Parchedig Martin Evans-Jones, Elizabeth Jones a Siân Williams am arwain gwasanaethau a hefyd i bawb a gymerodd ran yn y **Gwasanaeth Nadolig yn Ardal Bathafarn**. Yn y gwasanaeth hwnnw roedd y defosiwn yng ngofal Dafydd ac Audrey a mwynhawyd eitemau gan Nan a Siân, Gwyddelwern, plant Glyndyfrdwy ac Enid ac Ann a Marian ac Elwyn o Rehoboth. Wedyn cawsom luniaeth blasus yng Nghanolfan Awelon, wedi ei baratoi gan Mairwena gyda chymorth Meta, Lowri, Rhian a Gwen. Addurnwyd y capel gan Elizabeth a gosodwyd blodau ar y byrddau gan Bob.

**Ar fore dydd Nadolig cawsom wasanaeth Cymun Bendigaid** dan arweiniad y Parchedig Martin Evans-Jones gyda chymorth Elizabeth. Soniodd Martin yn ei sgwrs am yr angel Gabriel, y negesydd, a'r pwysigrwydd i ninnau fod yn negeswyr. Ar nodyn personol, y negeswyr i Bob a finnau, yn sicr, oedd y dynion a fu'n cludo ein pethau yn ôl i'r tŷ ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Pobl nad oeddem erioed wedi eu cyfarfod o'r blaen ond gyda'u haddfwynder a'u boneddigeiddrwydd yng nghanol y sefyllfa hon, daethant â naws arbennig i'n bywydau.

Yng nghanol prysurdeb y Nadolig hefyd, cafodd llawer o bobl yn Rhuthun eu hatgoffa o wir ystyr yr ŵyl pan ddaeth **band Byddin yr Iachawdwriaeth** i chwarae y tu allan i archfarchnad y dref.

**DATBLYGU EIN GALWAD**
Mewn cyfarfod o swyddogion yr Ardal yn Rehoboth, trafodwyd amryw o faterion a chlywsom gan y Parchedig Jennie Hurd a Delyth Davies am ffyrdd o ddatblygu ein galwad. Diolch i swyddogion y capeli am eu gweithgarwch a'u ffyddlondeb, a hefyd i Marian a Lynne am baratoi lluniaeth blasus i ni ar y terfyn.

**Y GYMDEITHAS**
Cawsom noson ddifyr yng nghwmni'r Parchedig Martin Evans-Jones a hyfryd yw gweld y festri ar ei newydd wedd ac wedi sionci'n arw ar ôl ei pheintio.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Pisgah, Rhiwlas

**FFYDDLONDEB**
Ar fore Sul ym mis Rhagfyr cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith trylwyr ac i'r holl aelodau am eu ffyddlondeb.

**CROESO NÔL!**
Cawsom y fraint o gael Mr Euron Hughes i'n gwasanaethu am y tro cyntaf. Nid yw Pisgah yn ddieithr iddo chwaith oherwydd byddai'n ffyddlon iawn yn yr Ysgol Sul ac yn nosbarth Anti Heulwen pan oedd yn blentyn. Er bod blynyddoedd wedi mynd heibio, mae'n siŵr bod y dylanwad yn parhau. Cawsom bregeth rymus a phwrpasol a fydd yn y cof am amser. Pleser oedd cael croesawu ei fam hefyd, un a gafodd ei magwraeth ym Mhisgah.

**DYMUNIADAU GORAU**
Da yw cael dweud fod Richard Williams yn gwella ar ôl cyfnod arall mewn ysbyty. Anfonwn ein cyfarchion at y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi; gwerthfawrogant yn fawr ymweliadau ein bugail ffyddlon sef y Parchedig Gwynfor Williams.

*Gohebydd – Dilys Parry*

## Salem, Rhyd-y-Foel

**ER COF AM MRS MAVIS WILLIAMS**
Cafwyd colled fawr yn Ebeneser gyda marwolaeth Mrs Mavis Williams ar noswyl y Flwyddyn Newydd. Roedd Mavis yn flaenor a thrysorydd ac yn weithgar iawn yn Ebeneser. Yn un o Oruchwylwyr Ardal Glannau Maelor ac yn gwasanaethu ar sawl pwyllgor i Synod Cymru. Roedd Mavis hefyd yn weithgar iawn yn y gymuned hyd y diwedd. Byddwn yn colli ei harweiniad a'i dylanwad yn fawr iawn. Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion Mavis, ei mab John; ei merch Emma a'i gŵr Mark; a'i wyrion Cathryn, Rhian ac Owen; a'i phartner Dai, yn eu profedigaeth.

**CYDYMDEIMLAD DWYS**
Cydymdeimlwn hefyd â'n gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd yn ei cholled sydyn ac annisgwyl. Bu farw ei gŵr, Ken Lloyd Gruffydd. Mae Eirlys yn weithgar iawn yn ein plith a bu'n gefn mawr i bawb yn enwedig Mavis yn y misoedd diwethaf. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'r teulu a'u cyfeillion oll yn eu profedigaeth.

*Gohebydd – Maldwyn Roberts*



*O na byddai'n haf o hyd! Aelodau a chyfeillion Bathafarn yn cychwyn ar wibdaith i Cheltenham a Chaerloyw*

# CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Daeth ton o dristwch drosof pan glywais am farwolaeth y Parchedig E H Griffiths. Y tro diwethaf imi fwynhau ei gwmni oedd ym Mhabell Lên Eisteddfod Wrecsam 2011, yn gwrando ar ddarlith goffa Tilsli. Roedd yr olwg o bleser ar ei wyneb yn dystiolaeth bod y ddarlith wrth ei fodd.

Bu cyfraniad E H fel gweinidog ar y cylchdeithiau yn amhrisiadwy a bydd llawer yn cofio am un a fu'n fugail ac yn gyfaill agos ar hyd taith bywyd. Roedd yn ddiwyd gyda'r goruchwylion cyfundebol ond fel gweinidog y Gair a'r Sacramentau y bydd y mwyafrif yn ei gofio gydag anwyldeb parhaol. Oherwydd roedd E H yn bregethwr heb ei ail. Roedd ganddo'r ddawn i lunio pregeth a oedd yn ddiwinyddol gadarn, a fyddai'n cadw ei wrandawyr gydag ef wrth iddo ddatguddio ac esbonio Gair Duw. Fe ddefnyddiai hefyd ei wybodaeth eang o lenyddiaeth Cymru a Lloegr i roi tameidiau blasus a fyddai bob amser yn goleuo'r hyn oedd ganddo i'w ddweud. Gan fod ei bregethau wedi'u llunio mor ofalus fe allai weithiau fentro i olrhain hanes rhai o'r bobl y dyfynnai o'u gweithiau a'n rhyfeddu gan ei gof am achau a chysylltiadau teuluol, cyn troi'n ôl at brif thema ei bregeth heb golli dim o naws y gwreiddiol. Byddai rhywun yn troi am adref nid yn unig wedi'i ddal gan neges y bregeth ond wedi derbyn dogn da o ddiwylliant hefyd.

Rhoddodd ei ddawn i olrhain hanes pobl a digwyddiadau ar waith trwy ei erthyglau i gyfnodolion a phapurau enwadol ac mewn nifer o gyfrolau pwysig. Y cyntaf o'r rhain oedd *Bywyd a Gwaith D R Hughes* a gyhoeddwyd yn 1965. Yn y llyfr diddorol hwnnw fe geir hanes y gŵr o Dreffynnon a dreuliodd 45 mlynedd yn Llundain ac a ddaeth yn uwch swyddog cwmni United Dairies. Roedd yn flaenllaw ymhlith Cymry Llundain gan ddod yn gyd-olygydd ar *Y Ddolen* a gweithio dros yr Urdd yn y ddinas. Wedi ymddeol dychwelodd i Gymru a bu'n drysorydd ac yn llywydd ar Undeb Cymru Fydd. Bu hefyd yn gyd-ysgrifennydd gyda Cynan i Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol. Ei ymdrechion ef fu'n gyfrifol am barhad yr Eisteddfod yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu farw yn yr Hen Golwyn yn 1953 ac mae gennyf gof o'i weld ar sawl achlysur yn mynychu digwyddiadau'r dref honno.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1964 dyfarnwyd y wobr gyntaf i E H gyda chanmoliaeth uchel am draethawd ar *Fywyd a Gwaith G M Ll Davies.* Y traethawd hwnnw fu'n sylfaen i'r cofiant i George M Ll Davies a ddaeth o'r wasg yn ddwy gyfrol, sef *Heddychwr Mawr Cymru* yn 1967 a *Seraff yr Efengyl Seml* yn 1968. Ym mlwyddyn dathlu canmlwyddiant Cymdeithas y Cymod a chofio dechrau'r rhyfel mawr, buddiol fyddai i bawb droi at y ddwy gyfrol i weld pa mor ddylanwadol fu G M Ll Davies ym mywyd cyhoeddus Cymru. Fel gwrthwynebwr cydwybodol fe fu yn y carchar lawer gwaith rhwng 1917 ac 1919 gan dreulio amser yn Wormwood Scrubs a Dartmoor ymhlith carchardai eraill. Bu'n aelod seneddol dros Brifysgol Cymru yn 1923 gan sefyll fel heddychwr Cristnogol. Treuliodd gyfnod yn Nhywyn a Chwm Maethlon fel gweinidog cyn ymddiswyddo a mynd i weithio yn y de ymhlith y di-waith. O 1932 ymlaen ei fan gwaith oedd Maes yr Haf yn y Rhondda cyn iddo ymddeol i Ddolwyddelan yn 1946. Bu'n ceisio cymod rhwng y glowyr a'r perchnogion ar sawl achlysur, a chan iddo adnabod De Valera a Lloyd George, ceisiodd gael y ddau i sefydlu heddwch yn yr Iwerddon. Wrth i amser fynd heibio mae gwir berygl i fywyd gŵr fel G M Ll Davies fynd yn angof. Mae cyfrolau E H Griffiths yn gyfraniad amhrisiadwy i sicrhau bod y cof amdano yn dal yn y tir.

Er ei fod wedi cyhoeddi llyfrau eraill hoffwn gyfeirio at Gyfrol 29 *Bathafarn*, lle ceir ymhelaethiad o ddarlith E H ar y Parchedig Lot Hughes (1787-1873), y gweinidog Wesla ac un a ysgrifennodd yn helaeth am hanes cynnar yr enwad yng Nghymru. Ganed Lot Hughes yn Nhyddyn Uchaf Bach, Abergele a phan oedd yn 16 oed, daeth yn flaenor yn Seiat y dref honno. Dechreuodd bregethu yn 1806 a'i alw i'r weinidogaeth yn 1808. Rhwng hynny ag 1850 bu'n gwasanaethu mewn 20 o gylchdeithiau gan symud o'r gogledd i'r de a threulio amser hefyd yn Lerpwl. Bu'n weithgar yn y Mudiad Dirwest ac un o'i ddywediadau bachog yn y frwydr honno oedd *"Fel yr oedd Iesu wedi troi'r dŵr yn win, fe all hefyd droi cwrw yn ddodrefn".*

Nid yn unig y ceir golwg ar hanes cynnar yr enwad, ond fe geir hefyd ddarlun o hynt a helynt bywyd beunyddiol gweinidog. I ni sydd wedi cael y fantais o fyw yn oes y car mae'n agoriad llygad i ddarllen am drafferthion gweinidogion gyda'u ceffylau a'r peryglon a ddeuai i'w rhan wrth deithio i gyflawni eu dyletswyddau. Stori antur yn wir! Mae'r gyfrol yn un arall o gymwynasau E H ac yn gyfrwng i ddyfnhau ein gwerthfawrogiad o ymroddiad ein cyndeidiau cyfundebol.

Ond i ni sy'n mynychu capel ac eglwys efallai mai fel emynydd a chyfieithydd emynau y cofiwn am E H Griffiths yn bennaf. Ar bwys ei ddawn yn y maes daeth yn Gymrawd Cymdeithas Emynau Cymru. Mae chwe emyn o'i eiddo yn *Caneuon Ffydd* a phrawf o'i ddawn yw'r canu ysbrydoledig a geir gan gynulleidfaoedd wrth droi at *Fy Arglwydd Dduw, daw im barchedig ofn (CFf 140), Y Crist yw fy Ngwaredwr (CFf 389), Ai gwir y Gair bod elw i mi (CFf 539), I Dduw bo'r gogoniant (CFf 563).*

Diolch i Dduw am gael adnabod un o gewri'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Fe fydd ei le yn wag ond gellir dweud ei fod yn dal i lefaru wrthym trwy ei waith.

# COLOFN GERDD gan GARETH BLAINEY

### TECLYN GWERTHFAWR NEU FAWR O WERTH?

Ludwig van Beethoven oedd y cyfansoddwr cyntaf i'w ddefnyddio a doedd gan Johannes Brahms fawr o feddwl ohono ond mae o ar ben neu yn ymyl biliynau o bianos ledled y byd gan gynnwys fy mhiano i. Sôn ydw i am y metronom – yr offeryn (pren gan amlaf) ar ffurf pyramid sydd â phendil y gellir ei osod i seinio faint o guriadau i'r funud sy'n addas wrth baratoi i berfformio darn o gerddoriaeth. Bron i ddau can mlynedd yn ôl, ar Ragfyr y 5ed 1815 a bod yn fanwl gywir, y cafodd yr Almaenwr Johann Nepomuk Maelzel batent – sef lythyr yn rhoi hawl brenhinol iddo wneud metronomau - a sefydlodd ffatri ym Mharis y flwyddyn wedyn.

Hwb mawr i Maelzel oedd y gefnogaeth gafodd gan ei gyfaill Beethoven ond oherwydd bod nifer o'i gyfarwyddiadau o ar gyfer y ddyfais newydd yn nodi y dylsid perfformio ei gerddoriaeth yn annaturiol o gyflym mae rhai arbenigwyr cerddorol o'r farn fod metronom personol Beethoven wedi torri!

O ran Brahms, wrth gyfeirio at un o'i gyfansoddiadau mwyaf adnabyddus 'Ein Deutsches Requiem' (Offeren i'r Meirw mewn Almaeneg) mewn llythyr at ei ffrind George Henschel oedd yn fariton o fri yn 1880 ysgrifennodd o:

'Dydi'r metronom fawr o werth…mae'r marciau metronom sydd yn y 'Requiem' yno oherwydd bod ffrindiau da wedi dwyn perswâd arna i i'w defnyddio nhw. Dydw i erioed wedi credu bod yr hyn sydd yn fy ngwaed i ac offeryn mecanyddol yn cyd-fynd â'i gilydd'.

Er gwaethaf barn bendant Brahms yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg y gred gyffredinol heddiw yw fod y metronom yn declyn gwerthfawr ar yr amod fod gan y perfformiwr neu'r arweinydd sy'n ei ddefnyddio ryddid i addasu cyflymder y gerddoriaeth dan sylw. Yn ôl yr Americanwr Miles Hoffman sy'n chwaraewr fiola uchel ei barch ac yn ddarlledwr ar gerddoriaeth glasurol:

'Mae'r rhan fwyaf o athrawon cerdd yn teimlo fod yn rhaid defnyddio metronom a'r rhan fwyaf o gerddorion proffesiynol yn dal i ymarfer gyda metronom drwy gydol eu gyrfaoedd'.

## GWEITHREDU DROS BLANT

TACHWEDD - RHAGFYR 2014

| | |
|---|---|
| Capel Salem, Pentre Helygain | £35-00 |
| Capel Ebeneser, Caernarfon | £20-00 |
| Y Parch a Mrs Gwynfor Williams, Caernarfon | £20-00 |
| Mrs Delyth Davies. Gwerthiant Cardiau Nadolig | £95-40 |
| Capel Soar, Maenan, Dyffryn Conwy | £5-00 |
| Di-enw | £40-00 |
| Mrs Dilys Jones, Rhuddlan. Gwerthiant Cardiau Nadolig | £25-00 |
| Mrs Dilys Jones, Rhuddlan - Rhodd | £10-00 |
| Mrs Irene Roberts, Rhuddlan. Gwerthiant Cardiau Nadolig | £5-00 |
| ER COF | |
| I gofio'n annwyl am Arthur Hughes, Croesoswallt, oddi wrth Cissie Marian a'r teulu | £20-00 |
| Er cof annwyl am y Parch a Mrs Gwylfa Morgan oddi wrth Eirian, Alwyn a Wyn a'r teulu | £25-00 |
| Er cof annwyl am y Parch a Mrs Arthur Williams oddi wrth Gareth a Hywel a'r teulu | £25-00 |
| I gofio'n annwyl am y Parch Clifford a Mrs Lilian Roberts – oddi wrth Geraint a'r teulu | £20-00 |
| I gofio'n annwyl am Wil – Ann, Nia a Bethan a'r teulu. | £25-00 |
| Cyfanswm | £370-40 |

Ar ran Gweithredu dros Blant, mae'n bleser gen i gael diolch yn fawr i bawb am bob cyfraniad.
Robin Jones, Cyswllt Synod Cymru, Gweithredu dros Blant.

# ER COF ANNWYL

Rhan o deyrnged a draddodwyd gan y Parchedig Martin Evans-Jones yn angladd y **Parchedig Edward Henry Griffiths M.A. B.D, 1919-2014**



Mae marwolaeth y Parchedig Ted Griffiths yn golygu fod un arall o hoelion wyth y weinidogaeth Wesleaidd Gymraeg wedi ein gadael – pobl oedd yn ddylanwadol iawn ym magwraeth ysbrydol llawer ohonom yn y gwaith Cymraeg. Diolchwn am ei ymgysegriad a'i ffyddlondeb i'r Arglwydd Iesu Grist.

Ei weinidogaeth oedd ei fywyd. Ganwyd ef yn Ysgeifiog, Sir y Fflint. Ac yntau yn ddim ond deuddeg oed dioddefodd Ted o lid yr ymennydd. Yn wir roedd y nyrs wedi colli pob gobaith ond fe ddaeth ato'i hun yn wyrthiol. Wedi'r adferiad hwnnw ei unig uchelgais oedd cael bod yn weinidog yr efengyl. Dylanwadwyd arno yn fawr gan y gweinidog ar y pryd, sef y Parchedig John Ellis Williams. Ei hoff emyn o'r cyfnod yma yw emyn Moelwyn,"Fy nhad o'r nef, o gwrando 'nghri, un o'th eiddilaf blant wyf fi" ac yn enwedig y geiriau, "O clyw fy llef a thrugarha, a dod i mi y doniau da".

Aeth Ted i goleg Handsworth, Birmingham yn 1939 lle yr enillodd fri fel peldroediwr a gradd B.A. mewn diwinyddiaeth yn y Brifysgol. Cafodd hefyd gyfle i wneud gradd B.D. mewn Astudiaethau Beiblaidd ym mhrifysgol Bangor. Gwerthfawrogwyd ef ac Olwen yn fawr ym mhob un o'r lleoedd y buont yn gwasanaethu ac roedd cariad y bobl atynt yn fawr – er, yn wir, fod Ted yn un a heriodd ei eglwysi i weithio. Roedd Ted yn ysgolhaig, yn bregethwr efengylaidd ac effeithiol, ac yn fugail cydwybodol, yn enwedig tuag at rai ar gyrion yr eglwys; a llwyddodd i ddenu rhai ohonynt yn ôl i'r gorlan. Roedd ganddo ddiddordeb arbennig yn yr ifanc.

Daeth yn olygydd y Gwyliedydd Newydd o 1960 i 1963. Gwasanaethodd ar y pwyllgor i gyfieithu'r Beibl Cymraeg Newydd, gwaith manwl a phwysig, ac roedd Ted gyda'i wybodaeth o Hebraeg a Groeg, heb sôn am ei allu llenyddol, yr union un i'r gwaith. Roedd yn aelod o dîm golygyddol yr Atodiad i Lyfr Emynau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd, ac wedyn o dîm *Caneuon Ffydd*. Mwynhaodd y dasg hon yn fawr. Anrhydeddwyd ef yn aelod o'r Orsedd am ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg. Ysgrifennodd gofiant i'r heddychwr mawr George M.Ll. Davies, ac esboniadau ar y Llythyr at yr Hebreaid a Llyfr Daniel.

Roedd yn ddyn hoffus ac annwyl dros ben, hawdd maddau iddo, heb air drwg i'w ddweud am neb – o hyd yn chwilio am y gorau ym mhawb. Yn ystod wyth mlynedd olaf ei fywyd aeth yn ddall yn raddol a cholli ei glyw ond ni fyddai byth yn colli unrhyw wasanaeth, cwrdd gweddi na dosbarth Beiblaidd. Roedd ei feddwl mor graff ag erioed a byddai ei gyfraniadau yn werthfawr bob amser.

Tra yn ei wythdegau gofynnwyd i Ted roi darlith i'r Gymdeithas Emynau yn eu cynhadledd flynyddol ar y testun- "Emynwyr Wesleaidd Cymraeg". Arddywedodd hi'n ofalus i Olwen ei hysgrifennu i lawr. Ond yn ei ragair, dywedodd ei fod yn teimlo fel Barsilai, prif swyddog y Brenin Dafydd, a berswadiwyd, yn groes i'w ewyllys i hebrwng y brenin ar ei daith olaf dros yr Iorddonen i Jerwsalem, dinas Duw. Meddai Barsilai wrth y Brenin, "Pa faint rhagor sydd gennyf i fyw, fel y down i fyny i Jerwsalem gyda'r brenin?...Gad i'th was ddychwelyd, fel y caf farw yn fy ninas fy hun, gerllaw bedd fy nhad a'm mam" (2 Samuel 19, 34-37). Fel hyn y teimlai Ted. Ond arhosodd yntau yn ffyddlon i'w Frenin hyd y diwedd a chafodd yntau ei gladdu yn ei hen gynefin wrth ymyl bedd ei deulu. Bydded iddo yn awr fwynhau ei orffwys yn y nef.

CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Bethel, Rhiwbeina

**PUM MLYNEDD AR HUGAIN YN Y WEINIDOGAETH**
Roedd ein hoedfa ar 9 Tachwedd dan arweiniad ein bugail y Parchedig Evan Morgan a chawsom gyfle i gyflwyno iddo rodd ariannol a hefyd gadwyn o englynion, gan y prifardd Aled Gwyn, wedi'u fframio, er mwyn cydnabod ei wasanaeth dros bum mlynedd ar hugain yn y weinidogaeth.

Canodd plant yr Ysgol Sul iddo ac ar ddiwedd yr oedfa aeth tua deugain o'r aelodau hefo Evan i gael pryd o fwyd gyda'n gilydd mewn gwesty lleol.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau i Bob Davies, un o aelodau ffyddlonaf Bethel, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed.

**COFION**
Anfonwn ein cofion cynnes at Sally Jones a Mair Jones. Llongyfarchiadau i Sally Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar ŵyl San Steffan.

**GWASANAETH NADOLIG**
Cawsom wasanaeth Nadolig gydag amrywiaeth o ddarlleniadau, barddoniaeth, unawd a chyfle i gyd-ganu'r hen garolau hyfryd; yn ogystal, cafwyd gwasanaeth a baratowyd yn ardderchog gan blant yr Ysgol Sul. Diolch yn fawr iddynt ac i'r athrawon a'r rhieni. Cymerwyd rhan hefyd gan barti canu Bethel dan arweiniad Gwilym Roberts. Ar ôl oedfa'r plant cynhaliwyd parti Nadolig ac wrth gwrs fe gafwyd ymweliad gan Siôn Corn er mawr lawenydd i bawb.

**NOSWYL NADOLIG**
Roedd y capel yn llawn ar gyfer gwasanaeth Llith a Charol dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

**CYDYMDEIMLO**
Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig daeth y newydd trist am farwolaeth Eifion Hopwood, Llandochau ond gynt o'r Ponciau ger Wrecsam. Bu'n aelod ffyddlon ym Methel am flynyddoedd a llenwi'r pulpud pan oedd angen. Roedd yn Wesle i'r carn ac roedd acen arbennig ei ardal enedigol ar ei wefusau er iddo fyw yn y De dros y blynyddoedd. Byddwn yn gweld ei golli yn fawr. Cydymdeimlwn â'i deulu, yn agos ac yn estynedig, yn eu hiraeth.

*Gohebydd: Gwilym E Roberts*

## Salem, Rhyd-y-Foel

**FFAIR NADOLIG**
Nos Wener Rhagfyr 5ed cynhaliwyd ein Ffair Nadolig flynyddol. Er bod y tywydd braidd yn arw daeth nifer helaeth o bobl i'n cefnogi. Roedd coffi a mins peis ar gael yn ogystal â nifer o stondinau a raffl. Diolch i bawb am eu hymroddiad a'n galluogodd i wneud elw sylweddol iawn sef £435 tuag at ein hachos.

**DATHLU'R NADOLIG**
Ddydd Sul Rhagfyr 21ain cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog o garolau a darlleniadau. Daeth cynulleidfa ardderchog ynghyd. Yn ogystal â darlleniadau gan aelodau a chyfeillion cafwyd eitemau gan Beth a Steffan Roberts a Cadi Pegg. Yn ôl yr arfer gwnaed casgliad tuag at Gweithredu Dros Blant ac fe gasglwyd £180.00. Darparwyd lluniaeth ar derfyn y gwasanaeth. Gyda'r nos aeth cynrychiolaeth o Salem i Eglwys Betws yn Rhos i gymryd rhan yn eu gwasanaeth hwythau.

**ADNEWYDDU'R CYFAMOD**
Mae Sul cyntaf y flwyddyn (Sul yr Ystwyll) yn Sul nodedig iawn oherwydd mae'n arferiad gan yr Eglwys Fethodistaidd gynnal gwasanaeth o gymun ac o adnewyddu'r cyfamod ar y Sul hwn a braint fawr i ni fel Eglwys oedd cael cwmni a gwasanaeth y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Fe gawsom wasanaeth hyfryd a bendithiol a chynulleidfa deilwng iawn. Dechreuad ardderchog i 2015.

*Gohebydd – Siân Price*

## Ebeneser, Dolgellau

**BEDYDD MARGED EMYR**
Ar Dachwedd 9fed arweiniwyd ni mewn gwasanaeth bedydd hyfryd gan y Parchedig Angharad Griffith pan fedyddiwyd Marged Emyr, merch fach Meinir Roberts, Minffordd, Y Lawnt, ac wyres i Emyr ac Anona Roberts, Arenig, Dolgellau.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Paul Duggan ar gael ei anrhydeddu am ei waith gyda Heddlu'r Glannau. Dyma'r ail anrhydedd iddo'n ddiweddar.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â theulu Mr Tommy Morris, Penbrynglas gynt, fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 18 Rhagfyr. Mi fu Mr Morris a'i wraig Jane yn aelodau yn Ebeneser am flynyddoedd lawer. Cynhaliwyd ei gynhebrwng yn Nolgellau ar yr 2il o Ionawr.

Hefyd daeth y newyddion am farwolaeth Mrs Dilys Lloyd, Llety Llwyd, Dolgellau gynt, yng nghartref ei mab yn Shanklin, Ynys Wyth, lle'r aeth i fyw pan dorrodd ei hiechyd i lawr. Roedd hi'n aelod selog iawn o Gapel Ebeneser, Dolgellau lle cynhaliwyd ei chynhebrwng ar y 6ed o Ionawr.

Mae eraill o'r gynulleidfa wedi colli anwyliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf, sef Bryngwyn Thomas wedi colli ei dad, a Menna Roberts, Gwyneth Meredith a Megan Abbey, y tair wedi colli brawd. Meddyliwn amdanynt yn eu colled a'u chwithdod.

*Gohebydd - Gwyneth Meredith*

## Ebeneser, Eglwysbach

**PARTI NADOLIG**
Nos Lun 22 Rhagfyr cynhaliwyd parti Nadolig Ebeneser. Braf oedd gweld Mrs Gwyneth Roberts yn bresennol – mae hi yn awr yn byw gyda'i merch Nerys yn Sir Fôn. Ar ôl pryd o fwyd a baratowyd gan y chwiorydd, galwodd Siôn Corn a rhoddwyd anrheg i bob plentyn. Diolchwyd i'r chwiorydd (ac i Siôn Corn) gan y Parchedig Philip Barnett.

*Gohebydd – Charles Crapper*

## Saron, Bethel, Arfon

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at Mrs Carys Williams, nad yw wedi bod yn rhy dda ei hiechyd yn ddiweddar. Gobeithiwn fel Eglwys y caiff hi lwyr wellhad a hynny'n fuan.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymuniadau da i Mrs Ceinwen Roberts sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref y Foelas, Llanrug. Er mai aelod gyda'r Presbyteriaid ym Methel yw Mrs Roberts mae hi wedi bod yn ffyddlon iawn i holl oedfaon Saron bob pnawn Sul ers iddi hi a'i diweddar ŵr Mr Glyn Roberts symud i Fethel o'r Bermo rai blynyddoedd yn ôl. Mae ei lle yn Saron yn wag iawn yn barod.

*Gohebydd – R.J*

## Ebeneser, Caernarfon

**COFIO RHAI ANNWYL**
Ar ôl brwydro'n hir yn erbyn gwaeledd brwnt, bu farw Howie Edwards. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod hawddgar Helena a'i ferch Glenda, y ddwy wedi bod yn gefn eithriadol iddo yn ystod dyddiau blin a thywyll.

Bu farw Awena Hughes, un o ffyddloniaid Ebeneser, ar ôl cystudd hir a blin. Gwraig fywiog, hwyliog, weithgar tu hwnt. Fel eglwys cydymdeimlwn â'r teulu oll ym marwolaeth un oedd mor annwyl iddynt: ei merch Bethan, ei hŵyr Christopher, ei brodyr Geraint ac Ieuan a'i chwiorydd Heulwen a Gwenllian. Mae Gwenllian yn ysgrifennydd Cymdeithas Chwiorydd Ebeneser ac fel ei

CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

chwaer yn weithiwr dihafal yn yr eglwys.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at Philip ac Asneth Chadwick. Y ddau wedi bod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar ac Asneth yn disgwyl profion pellach yn y flwyddyn newydd.

**GWEITHGAREDDAU'R NADOLIG**
Cawsom gyfle unwaith eto i fwynhau Cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon. Croesawyd ni'n gynnes gan ein gweinidog. Yn anffodus oherwydd anhwylder i'r llygad ni chawsom gwmni Megan Roberts. Trefnwyd y noson gan Carol Davis a Gwenllian Roberts. Cawsom swper arbennig a chyfle i fwynhau cwmnïaeth ein gilydd. Dan arweiniad Eira Owain cawsom gyfle i ganu carolau traddodiadol. Noson wrth fodd pawb.

Cynhaliwyd stondinau a the Nadolig hefyd a bu'n achlysur llwyddiannus gan fod yr aelodau mor barod i gyfrannu'n helaeth at weithgareddau Ebeneser. Hyfryd oedd gweld cynifer yn bresennol yn y gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr, gyda chynrychiolaeth o bob oed yn y gynulleidfa – gan gynnwys Ifan Llywelyn, tri mis oed, ym mreichiau ei fam Manon. Ei bresenoldeb yn creu awyrgylch hyfryd a bendithiol. Cyflwynodd plant ieuengaf yr Ysgol Sul bortread ar lafar o Joseff, Mair a'r baban Iesu. Lediwyd y carolau gan Nel, Mati, Alis a Betty a chafwyd darlleniadau gan Eira, Myfi a Gwenllian. Arweiniwyd y gweddïau gan Carol Davis a chawsom ddatganiad melodaidd ei naws hefyd gan Morwenna Roberts. Mwynhawyd eitemau ar y corn tenor gan Catrin ac ar y clarinét gan Henry. Yr organydd oedd Margaret Tüzüner.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau calonnog i Gwern Owain, ŵyr Eira Owain, ar ennill gradd MSc ym Mhrifysgol Lancaster. Pan oedd yn bymtheg oed trawyd Gwern â chlefyd y gwaed. Gyda chymorth Ysbyty Alder Hey, Lerpwl, brwydrodd yn llwyddiannus yn erbyn yr aflwydd. Mae'n parhau â'i astudiaethau ym Mhrifysgol Lancaster yn awr.

*Gohebydd – Branwen Edwards*

**E. H. Griffiths**
**gan y Parch. John Owen, Rhuthun**

Un â hedd y tangnefeddwr–a sêl
Oesol y myfyriwr.
Un yn rhoi fel yr heuwr
Yn wylaidd a gwaraidd ŵr.

## Bethel, Prestatyn

**DATHLU'R NADOLIG**
Y plant a'r ieuenctid oedd yn gyfrifol am ein Gwasanaeth Nadolig eto eleni. Cynhaliwyd y gwasanaeth fore Sul Rhagfyr 21ain ac roedd hi'n braf gweld y capel yn llawn gyda ffrindiau a theuluoedd y plant. Hyfryd hefyd oedd cael presenoldeb y Parchedig Jennie Hurd.



*Sam a Liam yn gweini*



*Mair a Joseff*


Hannah a Lowri a gymerodd y rhannau arweiniol ac wedyn cawsom Ddrama'r Geni wedi ei pherfformio gan y plant. Fe wnaeth pawb ei waith yn ardderchog ac mae hyn yn glod arbennig i'r Ysgol Sul gan fod llawer o'r plant o dan bump oed.

Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd coffi a mins peis yn y festri, wedi eu paratoi gan dri o'n dynion ifanc - Sam, Daniel a Liam. Cyflwynwyd anrhegion i'r plant gan Rachel Purser.

**MYND I WELD SIÔN CORN**
Aeth plant bach yr Ysgol Sul a'u rhieni (a rhai o'r aelodau hŷn!) i gael te gyda Siôn Corn cyn y Nadolig. Cafwyd llawer o hwyl - cyfle i gael sgwrs ac anrheg gan Siôn Corn.



**BEDYDDIO**
Cawsom y pleser o fedyddio dau faban bach yn y misoedd diwethaf, sef Ifan Huw, mab bach Daniel a Mari a brawd bach Alaw, a Lili Medi, merch fach Ffion a Simon a chwaer fach Alys a Beth. Diolchwn i'r Parchedig Thomas Evans Williams am ddau wasanaeth mor hyfryd. Dymunwn bob bendith i Ifan a Lili a'u teuluoedd.



*Y Parchedig Thomas Evans Williams yn bedyddio Lili Medi*

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw mam yng nghyfraith Mrs Bethan Purser a nain Rachel yn ddiweddar. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i John a Bethan, Catrin a Rachel.

*Gohebydd – Gwenda Humphries*

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchwn Islwyn a Megan Evans ar ddathlu eu priodas aur.

**GWELLHAD BUAN**
Rydym yn falch o glywed fod Elin, un o ieuenctid Preswylfa, yn gwella yn dilyn triniaeth lwyddiannus i'w chalon yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl. Dal ati, Elin!

**GWASANAETHAU'R NADOLIG**
Diolch i'r plant am gymryd rhan yn y gwasanaeth Nadolig, ac i'r rhai a baratôdd y paned a'r mins peis ar y terfyn. Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran yng ngwasanaeth undebol bore'r Nadolig a hefyd yng ngwasanaethau undebol dechrau'r flwyddyn yn y Capel Coffa, Preswylfa a Phensarn.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Miss Barbara Thomas a'r teulu; bu farw brawd Barbara, sef Gwyn, yn sydyn yn Preston. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Hywel Gwynedd Thomas, gynt o Benmachno.

*Gohebydd – Eirian Jones*

# ADUNIAD

gan Olwen Griffiths




A gawsoch brofiad o fod mewn aduniad, ysgol neu waith? Unwaith yn unig y bûm mewn aduniad ysgol a chofiaf imi fod yn bryderus iawn ar y cychwyn. Tybed faint o'r cyn-ddisgyblion y gallwn eu henwi? A beth fyddai eu hynt a'u helynt?

Ym mis Gorffennaf 1989 cefais y fraint o gynrychioli chwiorydd yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru ar daith i Kenya, i weld gwaith y chwiorydd yn yr eglwysi yno. Aeth pedair ar hugain ohonom ar y daith honno a dyma drefnu aduniad ar ôl 25 o flynyddoedd, yn Abbots Hall, gwesty Methodistaidd yn Grange over Sands.

Nid oeddwn wedi gweld na chlywed dim o hanes y rhan fwyaf ohonynt yn y cyfamser: roedd 25 o flynyddoedd braidd yn ormod o fwlch, mewn gwirionedd. Ond er imi deimlo'n bryderus, ar ôl cyrraedd doedd dim pall ar y sgwrsio a'r rhannu profiadau.

Pan gyraeddasom Nairobi ym 1989, rhoddwyd ni mewn grwpiau o chwech a'n hanfon i ardaloedd (Synodau) i aros, yna ar ein pennau ein hunain am wythnos efo teulu. Cawsom brofiadau amrywiol iawn – y llety yn llwm a thlawd ond y croeso a'r caredigrwydd yn anhygoel. Weithiau byddem yn cerdded milltiroedd i wahanol oedfaon ond yn aml yn cyrraedd yn hwyr. Roedd y gwaith a wnâi'r merched hyn yn ein rhyfeddu. Er mor dlawd oeddent, mynnent fod pob eglwys yn gweithio i gynorthwyo eraill.

Un o'r prosiectau oedd yn cael ei ariannu gan yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain drwy gasgliadau'r Genhadaeth oedd Ysbyty Maua, i'r gogledd o Nairobi. Roedd yr amodau yn gyntefig a llawer o famau a phlant yn marw ar enedigaeth. Er hynny, cawsom amser hyfryd yng nghwmni mamau llawen a'u babanod newydd-anedig. Byddai bechgyn a genethod yn mynd trwy ddefod enwaedu yn eu harddegau, a'r seremoni gan amlaf mewn afon yn llawn budreddi. Mae problem enwaedu yn dal i fod, yn enwedig y merched. Prosiect arall oedd ysgol breswyl i blant anabl yn Port Reitz, Mombasa, hwn eto wedi ei sefydlu gan yr Eglwys Fethodistaidd. Clywsom yno ganu bendigedig. Roedd pob athro ac athrawes yn anabl, felly gallent gydymdeimlo'n llwyr â'r plant.

Sut mae hi erbyn hyn, 25 mlynedd yn ddiweddarach? Yn ffodus iawn cawsom gwmni'r Parchedig a Mrs Charles a Joyce Macondie sy'n gwasanaethu yma am dair blynedd. Nhw ddaru ein croesawu i Nairobi ym 1989, pan oeddent newydd briodi! Clywsom ganddynt fod yr ysbyty erbyn hyn yn cael ei gydnabod gan y llywodraeth ac oherwydd hynny yn cael cymorth ariannol ac yn ysbyty hyfforddi. Yr un yw hanes yr ysgol; oherwydd ei llwyddiant cafodd gymorth ariannol gan y llywodraeth. Un o'r genethod bach a welsom ym 1989 yw'r brifathrawes erbyn hyn.

Bu'r penwythnos yn un gwerthfawr iawn. Atgofion gwahanol, profiadau digon anodd ar adegau, ond pawb ohonom yn tystio inni weld haelioni, croeso a chariad anfesurol yn Kenya. Roedd ffydd y chwiorydd yno yn ein cywilyddio. Gallwn ni fel eglwysi ddysgu llawer ganddynt.

## DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD (RHYNGENWADOL)

Ar ddydd Gwener, 6 Mawrth 2015, bydd chwiorydd ym mhob rhan o'r byd yn cymryd rhan mewn Oedfa o Weddi a baratowyd gan Wragedd Cristnogol y Bahamas. Cyfeiriwyd at y Bahamas am y tro cyntaf yn 1492 pan gofnodwyd bod Christopher Columbus wedi cyrraedd y lle a elwir heddiw yn San Salvador gan gipio caethweision a lladd yr Indiaid cynhenid. Rhoddodd y Llywodraeth Brydeinig derfyn ar y fasnach gaethweision yn 1802 ond ni welwyd effaith hyn mewn gwirionedd tan yr 1830au. Cafwyd hunan lywodraeth yn 1964 ac annibyniaeth lawn o fewn y Gymanwlad yn 1973. Mae gan y Bahamas etifeddiaeth gyfoethog ym meysydd cerddoriaeth, dawns a'r celfyddydau. Er ei bod yn un o'r gwledydd mwyaf ffyniannus yn India'r Gorllewin mae yno hefyd ardaloedd difreintiedig.

Mae Pwyllgor Dydd Gweddi'r Byd yn y Bahamas yn eich croesawu chi i'r dathliad hwn. Heddiw, mae'r Dydd Gweddi yn cael ei ddathlu gan fwy na deg enwad Cristnogol ar y rhan fwyaf o ynysoedd y Bahamas. Gwahoddir chi yn gynnes iawn i ymuno mewn gwasanaeth yn eich ardal chi, fel y cewch gymryd rhan gyda'r lluoedd ar draws y byd.

*Maureen Hughes, Ysgrifennydd Pwyllgor Cymru*

## Gwneud y pethau bychain



# CUDD FY MEIAU

gan Dewi Rhys



Ysgrifennaf yr erthygl yma a hithau'n hwyr y pnawn a bron iawn yn ddiwrnod cau ar gyfer anfon i'r Gwyliedydd. Pam mor hwyr? Ceryddaf fy hun am fod mor flêr ac anhrefnus.

Wrth gwrs, mi allwn roi'r bai ar fy merch. Mynnodd fy mod yn mynd â hi i Fangor i siopa ddoe, a finna' wedi bwriadu cyflawni'r dasg bryd hynny. Neu, gallwn ddweud mai rhywbeth a wnelo â'r adeg hon o'r flwyddyn ydi o; mae yna ryw ddyletswyddau i ymweld â theulu a ffrindiau, ar ben gofynion gwaith bob dydd. Wel, pam nad oeddwn wedi bod wrthi'n sgwennu y bore 'ma, felly? O, bai hogia'r clwb rygbi oedd hynny am fy ngorfodi i aros gyda nhw neithiwr a chael pryd o fwyd hwyr; ac yna pan godais heddiw roedd llygaid y ci yn crefu arnaf i fynd â hi am dro yn y tywydd garw.

Wedi dweud hyn oll, fy nghyfrifoldeb i yn unig yw paratoi'r erthygl. Mae'n ddychryn cymaint o bobl sydd o hyd ac o hyd yn beio eraill am bethau, heb hyd yn oed sylweddoli eu bod yn gwneud. Mae'r peth yn rhemp ac weithiau does dim math o synnwyr cyffredin i'w weld.

Dyma un enghraifft o rywbeth a ddigwyddodd ar y stryd acw yr haf diwethaf. Gŵr ar ei feic yn disgyn a thorri ei fraich. Yntau'n cysylltu â chyfreithiwr a thrwy ryfedd wyrth y ddau yn darganfod nad oedd y concrit ar ran o'r stryd yn gwbl wastad. Mynd â'r Cyngor i gyfraith a'u cael yn euog o fethu cadw'r stryd mewn trefn. Y canlyniad gwallgof oedd i'r Cyngor dalu miloedd i'r person yma; poced y cyfreithiwr yn llenwi a'r Cyngor yn dlotach, ar adeg pan maent yn gorfod gwneud toriadau difrifol.

Wrth i economi'r wlad waethygu, anaml y bydd neb yn fodlon syrthio ar ei fai, rywsut. Mae'r bys yn pwyntio at rai unigolion yn y banciau a weithredodd yn y modd mwya' dieflig gydag arian y cyhoedd. A chawsom enghreifftiau o aelodau seneddol yn ceisio dallu'r cyhoedd gyda chelwyddau anfoesol. Lleiafrif yw'r rheini, wrth gwrs; ambell dro hefyd daw meddyg, nyrs neu athro o flaen ei well, er bod y mwyafrif llethol yn gwneud eu gorau glas trosom.

Trof fy meddwl at Iesu Grist, ein Gwaredwr, yn gwarchod a helpu pobl a mynd o gwmpas gan wneud daioni. Cafodd ei feio gan y drwgdybus a'r barus: a oes unrhyw newid, ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach? Mae'n rheitiach inni i gyd edrych arnom ein hunain a chydnabod ein bai.


**Gweddi John Wesley**

Maddau'r cyfan inni, O Arglwydd:

y pethau na wnaethom a'r pethau a wnaethom;
pechodau'n hieuenctid a phechodau blodau'n dyddiau;
pechodau'n heneidiau a phechodau'n cyrff;
ein pechodau dirgel a'r rhai mwy amlwg;
y rhai a wnaethom mewn anwybodaeth neu'n annisgwyl,
a'r rhai a wnaethom yn fwy bwriadol a herfeiddiol;
y rhai a gyflawnwyd i'n plesio'n hunain, ac i blesio eraill;
y rhai y gwyddom amdanynt ac a gofiwn,
a'r rhai sydd wedi mynd yn angof;
y pechodau yr ydym wedi ceisio eu cuddio oddi wrth eraill
a'r pechodau hynny sydd wedi gwneud i eraill bechu;
maddau, O Arglwydd, maddau hwynt i gyd er ei fwyn ef,
a fu farw dros ein pechodau ac a gyfododd i'n cyfiawnhau,
ac sy'n eistedd yn awr ar dy ddeheulaw i eiriol drosom,
Iesu Grist ein Gwaredwr. Amen.

# O'r pen yma

gan Angharad Tomos



## CYFRI BENDITHION

Tŷ haf sydd drws nesaf i'n tŷ ni. Ernie a Phyllis fu'n byw yno ers blynyddoedd, ond pan fu'r ddau farw, gwerthwyd Drws Nesaf fel tŷ haf. Profiad diflas yw byw drws nesaf i dŷ sy'n wag am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Ond mae iddo ei fanteision.

Pan ddaw ein cymdogion ysbeidiol i dreulio noson neu ddwy drws nesaf, maent yn mynegi eu gwerthfawrogiad o'r lle. Maen nhw wedi syrthio mewn cariad efo'r tŷ a'i leoliad. Pan ddônt i aros, maent yn mynd ar deithiau i lefydd sydd ddim yn swnio yn arbennig o gynhyrfus i ni - Dinas Dinlle, Caernarfon a Chricieth. A phan nad ydynt yn crwydro, does dim yn well ganddynt na gwerthfawrogi eu cartref gwyliau. "Rydych chi *mor* lwcus," meddant (yn yr iaith fain) "yn cael byw yma drwy gydol y flwyddyn."

Ers iddynt ddweud hynny, dwi'n edrych ar fy nghartref drwy lygaid newydd. Yn lle bod yn 'ddim ond adre', dwi'n edrych arno fel lleoliad bendigedig. Yn hytrach nag ystyried pentrefi'r ardal fel llefydd cyffredin, dwi'n dotio atynt. A mwya sydyn, dwi'n sylweddoli pa mor ffodus ydw i. Mae Gwynedd yn lle tlawd yn economaidd, ac mae swyddi yn brin, ond i'r rhai ohonom sy'n byw yma, mae gennym gyfoeth o olygfeydd.

Yn nhwll y Gaeaf felly, boed inni gyfrif ein bendithion. Nid yn unig fod gennym gysgod, bwyd a dillad, ond bod gennym gymaint o harddwch naturiol ar garreg ein drws. Mae pobl o'r tu allan i Wynedd yn gwario arian mawr yn teithio yma i aros noson neu ddwy er mwyn cael dringo'r mynyddoedd a gweld ein traethau. Ond am ein bod yn byw yma, mi wnaiff fory wastad y tro i grwydro. Pan gawn wyliau, hel ein traed oddi yma a wnawn.

Ym mis Ionawr, euthum i Lyn Idwal yn Nyffryn Ogwen, a chael fy syfrdanu gan ei harddwch, ac at yr eira. Wir i chi, wedi dim ond dwy awr yno, rôn i'n teimlo mod i wedi bod yn y Swistir am dro! Felly yn ystod 2015, beth am inni dreulio rhyw bum munud bob yn hyn a hyn yn diolch am lle rydym yn byw. A gadewch y clirio a'r llnau ambell waith, cau drws y tŷ a mynd am dro. Hyd yn oed os mai dim ond am hanner awr - byddwn yn teimlo'n well wrth ddod adre!

# Diolch Gwenda

Ddiwedd y flwyddyn 2014, penderfynodd **Gwenda Davies** (Anti Gwenda i lawer!) ymddeol o'i gwaith yn arwain Ysgol Sul Shiloh, Tregarth. Bu'n siarad ag un o olygyddion y Gwyliedydd am ei phrofiadau gyda'r Ysgol Sul.



***G: Mae llawer iawn o blant wedi mwynhau bod yn Ysgol Sul Shiloh efo chi ar hyd y blynyddoedd, Gwenda. Dros gyfnod o ddeugain mlynedd rŵan. Pa atgofion sydd gennych o fod yn yr Ysgol Sul eich hun yn blentyn? Lle roeddech chi'n byw bryd hynny?***

*Gwenda:* Cefais fy ngeni ym mhentref Groes, ger Dinbych lle roedd fy nhad, John Owen, yn weinidog gyda'r Presbyteriaid; mae'n sicr 'mod i wedi bod yn aelod o'r Ysgol Sul yno ac mae'n siŵr mai fy mam, Myfanwy Rhys, oedd fy athrawes gyntaf. Yr unig gof clir sydd gennyf yw cael fy nharo i lawr gan gar pan redais dros y ffordd o'n tŷ ni i efail y gof! Yn 1950 fe symudon i Lanbedr yn Ardudwy. Roedd fy nhad yn weinidog ar Gapel Moriah, Capel y Gwynfryn a chapel bach Cwm Nantcol. Roedd Ysgol Sul gref ym Moriah ac mae gen i atgofion lu o'r gwmnïaeth hyfryd yn y capel a'r Ysgol Sul. Roedd gen i athro Ysgol Sul penigamp, Meirion Arthur, gŵr a ddylanwadodd yn fawr arnaf. Mwynheais fod yn rhan o'r Ysgol Sul nes daeth yr amser i mi fynd i i'r coleg.

***G: Beth wnaethoch chi wedyn? A phryd ddaethoch chi i Ddyffryn Ogwen?***

*Gwenda:* Mi ddois i Ddyffryn Ogwen yn 1971 wedi i mi briodi, gan mai brodor o Lanllechid oedd Glyn y gŵr. Bûm yn athrawes ym Môn am dair blynedd ac yn byw am gyfnod yn Llanfwrog, yng nghartref y Parchedig John Roberts. Doeddwn i ddim yn rhan o unrhyw Ysgol Sul bryd hynny chwaith.

***G: Pryd gawsoch chi gyfle i ddysgu plant yn yr Ysgol Sul am y tro cyntaf?***

*Gwenda:* Yn Shiloh pan ddaeth fy merch, Iona Rhys, yn ddigon hen i fynychu'r Ysgol Sul. Roedden ni newydd sefydlu Ysgol Feithrin yn Nhregarth yn 1975 felly roedd yn naturiol fod y plant yn dod i'r Ysgol Sul gyda'i gilydd, ac wedyn daeth dau frawd Iona, sef Dyfed a Siôn Glyn, hefyd yn rhan o gwmni'r Festri. Weithiau fe fyddai yna brotest yn tŷ ni fel yr aent yn hŷn ond dwi'n falch iawn eu bod nhw a gweddill y plant a'r ieuenctid wedi cael cyfle i fod yn rhan o fywyd y capel.

***G: A chithau'n athrawes lawn amser drwy'r wythnos oeddech chi'n ei chael hi'n anodd cael amser i arolygu'r Ysgol Sul hefyd?***

*Gwenda:* Mae cael gweithio gyda phlant yn brofiad unigryw a rhywbeth newydd yn digwydd bob dydd. Roedd mynd i'r Ysgol Sul yn ychwanegiad hyfryd i'r gwaith. Dwi'n dal i feddwl fod plant mewn ysgolion heddiw yn colli llawer iawn gan nad ydi'r Cwricwlwm bondigrybwyll yn rhoi llawer o le i Addysg Grefyddol/Moesol.

***G: Pa adegau llawen neu drist rydych chi'n eu cofio'n arbennig?***

*Gwenda:* Mae bod yng nghwmni plant yn well na ffisig. Maen nhw'n gallu bod mor ddigri a llawn dychymyg. Ond mae gen i un atgof a roddodd loes i mi am flynyddoedd yn dilyn y digwyddiad. Gan fod Capel Shiloh ar fin y ffordd fawr, a dim pafin rhwng giât y capel a'r ffordd, mae'n gallu bod yn beryglus iawn. Un bore mi redodd Dyfed (5 oed) i'r ffordd a chael ei daro gan gar. Torrodd ei goes. Allwch chi ddim bod yn rhy ofalus yng nghwmni plant. Ac onid ydi hanes yn ailadrodd ei hun!

***G: Beth oedd eich hoff adeg o'r flwyddyn yn yr Ysgol Sul? A beth am draddodiad y trip Ysgol Sul?***

*Gwenda:* Y Nadolig oedd fy hoff adeg: y plant a'r ieuenctid bob amser ar eu gorau yn cyflwyno'r hen, hen stori. O ran y trip, ers blynyddoedd bellach rydan ni fel plant, ieuenctid a rhieni'r Ysgol Sul yn gorffen dros yr haf gyda thaith i Gwm Idwal.

***G: Ers talwm roeddem yn canu 'Am yr Ysgol rad, sabothol, clod, clod i Dduw'. Ym mha ffordd y mae'r Ysgol Sul yn werthfawr i blant y dyddiau hyn?***

*Gwenda:* Mae'r Ysgol Sul yr un mor werthfawr ag erioed. Mae yna lawer wedi newid. Mae digonedd o lyfrau lliwgar, hyfryd ar gael ac emynau a chaneuon hwyliog – heb anghofio'r hen rai wrth gwrs – ac rydym yn manteisio ar offer technegol. Ydi, mae'r Ysgol Sul yn sefydliad pwysig a dylem ofalu fod y drws yn dal ar agor.

***G: Diolch am siarad efo'r Gwyliedydd, Gwenda, a diolch am eich holl waith.***

## Taro'r Post

**Annwyl Robin a Ffion**

Wedi darllen am y Plygain yn Lloc yn 1915 [Gwyliedydd, Rhagfyr-Ionawr] ac sy'n parhau hyd heddiw, hoffwn ddweud ein bod ni, Gristnogion ardal Ann Griffiths, yn cynnal PLYGIEN yn Hen Gapel John Hughes, Pontrobert, am 6 o'r gloch fore Nadolig hefyd, ac i ni gael dros hanner cant o gynulleidfa a chwe pharti yn canu dau gylch eleni (2014). Pawb yn cytuno bod rhywbeth arbennig o ysbrydol mewn Plygien cyn-dydd wrth i addolwyr gyrraedd yn y tywyllwch ac i mewn i olau canhwyllau cyn ymadael ar doriad y wawr i oleuni dydd newydd, gan sicrhau parhad traddodiad Cymreig ar ei buraf.

Cofion<br>
**Nia Rhosier**<br>
(Ceidwad y Ganolfan Undod ac Adnewyddiad Cristnogol)



Angylion bach ym Methel, Prestatyn, Nadolig 2014



***uchod:*** Dyma Charles, Cadi a Huw gyda'u mam Mrs Gwenan Doy, yn derbyn anrheg Nadolig gan y Parchedig Gwynfor Williams yn Saron, Bethel



Drama'r Geni yn Shiloh, Tregarth

***isod:*** Ebeneser, Caernarfon: ymweliad Siôn Corn. Ar y chwith y mae Olwen a Branwen, athrawon ffyddlon yr Ysgol Sul, ac Ifan Llywelyn (3 mis oed) ym mreichiau ei nain



Y Parchedig Evan Morgan, sydd wedi dathlu 25 mlynedd ers ei ordeinio.





**Plant a phobl ifanc Bethel, Rhiwbeina**


Bedydd Ifan

**Bedyddiwyd Ifan a Lili ym Methel, Prestatyn.**

*Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch iddynt: canys eiddo'r cyfryw rai yw teyrnas Dduw. Marc 10:14*


Bedydd Lili

## NEGES BWYSIG I HOLL DDARLLENWYR Y *GWYLIEDYDD*

Efallai i chi sylwi nad oes pris yn ymddangos ar du blaen y ***Gwyliedydd*** mwyach. Rai blynyddoedd yn ôl fe benderfynodd Synod Cymru y dylem ddosbarthu copïau yn rhad ac am ddim yn ein capeli. Cofiwch eu rhannu i'ch ffrindiau mewn eglwysi eraill ac i bawb fyddai'n hoffi ei gael: mae'n ddi-dâl ar eu cyfer hwythau hefyd.

Gan fod ein bil ar gyfer anfon copïau drwy'r post wedi cynyddu'n sylweddol, gofynnwn yn garedig i bawb sy'n derbyn copïau unigol drwy'r post (nid y rhai sy'n ddosbarthwyr) gadarnhau **ERBYN DIWEDD MIS MAWRTH 2015** eich bod yn dymuno parhau i'w dderbyn. Rhowch wybod drwy ddweud wrth Robin neu Ffion, drwy'r post neu e-bost neu alwad ffôn.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L | M | U | C | Y | M | O | D | B | E | G | E |
| O | O | LL | A | F | S | O | NG | A | DD | R | A |
| D | N | A | D | I | R | T | E | M | DD | A | D |
| A | O | N | E | N | D | T | TH | G | R | W | N |
| N | R | H | I | I | I | N | A | W | N | Y | E |
| A | T | E | R | A | O | A | I | A | DD | S | W |
| D | E | U | Y | G | L | L | LL | R | Y | L | G |
| O | M | L | DD | Y | CH | P | L | E | FF | E | W |
| L | G | O | W | L | A | N | O | D | Y | TH | Y |
| I | W | G | E | P | E | D | R | W | DD | E | S |
| G | I | D | E | CH | R | A | P | R | A | B | M |

Yn y chwilair isod mae 16 o eiriau'n cuddio, pob un yn ymddangos yn y rhifyn hwn o'r *Gwyliedydd*. Fedrwch chi gael hyd i bob un?
GRAWYS, ARDDANGOSFA, CADEIRYDD, MAB, CYMOD, PLYGAIN, PARCHEDIG, DIOLCH, METRONOM, BETHEL, NADOLIG, LLANHEULOG, GWAREDWR, GWENDA, PLANT, FFRINDIAU

Tudalen y plant yn ôl y tro nesaf